Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd


## Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2018/19

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2018/19 mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2017 a 4 Ionawr 2018. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol a gwnaethpwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn enwedig i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, ac i Jacobs (Andrew McGeoghan) a KPMG (James Ledward) a gafodd eu penodi i roi sicrwydd allanol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y taliadau yn Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol amrywiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, yn eu cyfanrwydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'r ddogfen yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ychwanegol ofynnol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheolaeth fewnol ac yn unol â hynny maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

Nid oes unrhyw reolau ynglŷn â chodi taliadau am wasanaethau cysylltiadau newydd i ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru ac, felly, mae'r taliadau a geir yn Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2018/19 wedi cael eu datblygu fel mewn blynyddoedd blaenorol. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw newid i gydbwysedd y taliadau rhwng datblygwyr a chwsmeriaid eraill.



**Alastair Lyons**
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
4 Ionawr 2018